Ein Treftadaeth
Our Heritage

# Byw ar y Gwenithfaen

**Tro i fyny'r mynydd ac i lawr i'r môr**

**Hyd: 2-3 awr fesul rhan neu 1 diwrnod i'r daith gyfan - Cerdded Anodd**

DILYNWCH Y STORI: : Dowch o hyd i fwy o wybodaeth am Oes yr Haearn ar Benrhyn Llŷn drwy ymweld â bryngaerau sydd hyd yn oed yn fwy - **Carn Fadryn** neu **Garn Boduan**; mae'r ddwy yn deithiau rhyfeddol gyda golygfeydd ardderchog.

Dechreuwch yn y **maes parcio (1)** hanner milltir i'r gogledd o Lithfaen ar y ffordd i Ganolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn. Mae cerflun yma i gofio'r dynion fu'n gweithio yn y chwareli welwch chi o'ch cwmpas.

Mae'r cam cyntaf i ymweld â un o fryngaerau Oes yr Haearn gorau sydd i'w cael yn y wlad. Gadewch y maes parcio ac anelwch am y de-ddwyrain (gan gadw'r wal i'r dde) i fyny'r allt tuag at ddarn gwastad. Nid y mynydd a welwch ar y chwith yw'r mynydd rydych yn anelu ato. Ewch drwy'r giât mochyn ddu ac ymunwch â'r prif lwybr sy'n mynd i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain. Ar ôl hanner milltir arall ewch drwy giât mochyn fetel arall a dechreuwch gerdded y llethr serth i'r gaer.

Mae'r enw **Tre'r Ceiri (2)**, yn golygu 'Tre'r Cewri'. Amgylchynir y gaer gan ragfur cerrig anferthol, sy'n dal i sefyll tua 3 medr (10 troedfedd) o uchder ar hyd y rhan fwyaf o'r cylch. Y tu mewn i'r rhagfur canfuwyd gweddillion tua 150 o adeiladau o wahanol feintiau.

Dychwelwch ar hyd y ffordd y gwnaethoch ei dringo o'r maes parcio islaw.


Mae ail gam ein cerdded yn ein cymryd i lawr i **Nant Gwrtheyrn (3)**. Unwaith yn bentref chwarel ffyniannus, cafodd ei adael yn wag yn ystod y blynyddoedd oedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd wrth i waith ddarfod yn y chwarel a daeth yn bentref anghyfannedd.

Fodd bynnag, mae'r pentref wedi ei aileni ar ffurf Canolfan Iaith a Threftadaeth. Ymwelwch â'r caffi ble y gallwch holi am y melltithion a'r chwedlau sy'n gysylltiedig â Nant Gwrtheyrn!

O'r caffi dilynwch y ffordd ac arwyddion Llwybr yr Arfordir (cragen). Trowch i'r chwith a dilyn llwybr yr arfordir drwy'r coed i **Giliau Isaf (4)**, croeswch y gamfa cyn cyrraedd y fferm a dilyn llwybr y fferm. Ychydig cyn cyrraedd y briffordd trowch i'r chwith dros gamfa a dilyn llwybr wedi ei arwyddo fel Ffordd y Pererinion yn ôl i'r **maes parcio (1)**.



Tre'r Ceiri © Cyngor Gwynedd




Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2014

Mae "Ein Treftadaeth" yn rhan o Brosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw, a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, gan gynnwys rhagor o gefnogaeth drwy Gyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.